



Pecynnau Swyddfa

01970621809 / innovate@aber.ac.uk

	Pecyn Aelodaeth Preswyl (pris/m ² y mis)	Pecyn Aelodaeth Cyswllt (£90 y mis)	Pecyn Aelodaeth Rhithiol (£50 y mis)
Swyddfa breifat, broffesiynol, newydd sbon sy'n olau ac eang	●		
Desg benodol pan fyddwch yn gweithio ar y Campws neu'n ymweld ag ef		●	
Presenoldeb amser-llawn ymhlith cymuned o fusnesau a gwyddonwyr	●		
Glanhau a chynnal a chadw yn rhan o'r pris a cyfleusterau sbwriel ac ailgylchu	●	●	
Amgylchedd gweithio proffesiynol ymhlith busnesau o'r un anian	●	●	
Hysbyseb i'ch cwmni ar wefan AIEC	●	●	●
Cyfeiriad masnachu	●	●	●
Mynediad i ddigwyddiadau ar y campws	●	●	●
Lle i gynnal cyfarfodydd â chydweithwyr a chydweithredwyr	●	●	●
Dechrau gweithio ar unwaith	●	●	●





Aelod Preswyl

Swyddfa wedi'i dodrefnu'n llawn gyda llinell ffôn a mynediad electronig 24/7 i'r adeilad ac oriau gwaith anghyfyngedig. Bydd gan bob aelod preswyl swyddfa breifat y gellir ei chloi sydd â gwres, trydan, golau ar synhwyrdd, diogelwch a rhyngwyd cyflymder uchel a Wi-Fi.

Bydd gan aelodau preswyl hefyd mynediad rhad ac am ddim i ystafelloedd cyfarfod o safon uchel a gofodau ymlacio gan gynnwys cegin a rennir a chaffi ar y safle, a lle penodol i barcio car.

Manteision:

- Swyddfa breifat, broffesiynol, newydd sbon sy'n olau ac eang
- Presenoldeb amser-llawn ymhlith cymuned o fusnesau a gwyddonwyr
- Gweithio yn yr un lleoliad a Thîm AIEC
- Symud i mewn yn syth a dechrau gweithio ar unwaith
- Mynediad i ddigwyddiadau
- Hysbyseb i'ch cwmni ar wefan AIEC o dan 'Aelod Preswyl'
- Glanhau a chynnal a chadw yn rhan o'r pris
- Cyfleusterau sbwriel ac ailgylchu

Aelod Cyswllt

Gofod swyddfa a rennir, wedi'i dodrefnu'n llawn gyda llinell ffôn benodol. 40 awr o fynediad electronig i'r adeilad bob mis yn ystod oriau gwaith yn ogystal â gwres, trydan, golau ar synhwyrdd, diogelwch a rhyngwyd cyflymder uchel a Wi-Fi.

Bydd aelodau cyswllt hefyd yn cael 4 awr o fynediad rhad ac am ddim i gyfleusterau ystafell gyfarfod o safon uchel a gofodau i ymlacio gan gynnwys cegin a rennir a chaffi ar y safle, a lle penodol i barcio car

Manteision:

- Desg benodol pan fyddwch yn gweithio ar y Campws neu'n ymweld ag ef
- Gweithio yn yr un lleoliad a Thîm AIEC
- Symud i mewn yn syth a dechrau gweithio ar unwaith
- Mynediad i ddigwyddiadau ar y Campws
- Cyfeiriad masnachu ac amgylchedd gwaith proffesiynol
- Hysbysebu'ch cwmni ar wefan AIEC
- Glanhau a chynnal a chadw'n rhan o'r pris
- Cyfleusterau sbwriel ac ailgylchu

Aelod Rhithiol

Mynediad i gymuned ar-lein a rhwydwaith AIEC yn ogystal â'n hystafelloedd cyfarfod pan fyddwch yn ymweld â'r campws, a chyfeiriad masnachu gyda lle diogel i gadw post.

Manteision:

- Cyfeiriad masnachu a lle diogel i gadw post
- Hysbyseb i'ch cwmni ar wefan AIEC o dan 'Aelodau Rhithiol'
- Mynediad i Ystafelloedd Cyfarfod – ceir 50% o ostyngiad ar y cyfraddau arferol ar gyfer defnyddio'r cyfleusterau – mae'n rhaid eu harchebu, ac maent yn ddibynnol ar argaeledd.